



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Diweddariad am y brechlyn Vaccination Update



Cylchlythyr Wythnosol Weekly Newsletter

CYHOEDDIAD 48: wythnos 13/12/2021

Cynnydd wythnosol (6 - 13 Rhagfyr)

Rydym yn parhau i gyflymu'r broses o gyflwyno rhaglen Brechiad Atgyfnerthu Covid-19 yn ardal ein Bwrdd Iechyd, wrth i ni weithio'n gyflym tuag at dargedau brechu Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cynyddu nifer yr apwyntiadau rydym yn eu cynnig yn sylweddol ac rydym wedi ymestyn oriau agor ein canolfannau brechu. Mae ein timau brechu yn gweithio'n eithriadol o galed i ddarparu mwy o ddosau Atgyfnerthu mor gyflym ac yn y ffordd fwyaf diogel bosibl.

Helpwch ni drwy:

- Fynychu'r apwyntiad cyntaf sydd ar gael i chi.
- Beidio â chysylltu â'r ganolfan archebu i ail-drefnu
- Fynychu eich apwyntiad ar amser.
- Beidio â chysylltu â'r ganolfan archebu i drefnu apwyntiad - byddwn yn cysylltu â chi (gall hyn fod ar fyr rybudd, drwy lythyr neu neges destun)

FFIGYRAU'R BRECHLYN ATGYFNERTHU

(hyd at 10pm, 12/12/2021)

80 oed a hŷn	25,080	86.4%
75-79 oed	20,800	87.7%
70-74 oed	28,526	87.1%
65-69 oed	27,643	84.7%
60-64 oed	29,166	77.0%
55-59 oed	29,688	66.0%
50-54 oed	21,958	49.5%
Eithriadol o fregus yn glinigol	6,618	45.0%
Grwpiau mewn perygl	40,068	58.4%

Yn dilyn canllawiau newydd gan y JCVI, **MAE APWYNTIADAU AR GYFER DOSIAU ATGYFNERTHU'N CAEL EU GWNEUD YN ÔL Y DREFN FLAENORIAETH** ar gyfer pobl a gafodd eu hail ddos mwy na 3 mis yn ôl.

Pobl dros 80 oed, a gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd rheng flaen yn cynnwys gweithwyr cartrefi gofal

Pobl rhwng 75-79 oed

Pobl rhwng 70-74 oed ac oedolion sy'n hynod fregus yn glinigol

Pobl rhwng 65-69 oed

Pobl rhwng 16-64 oed gyda chyflyrau iechyd sylfaenol

Pobl rhwng 60-64 oed

Pobl rhwng 55-59 oed

Pobl rhwng 50-54 oed

Pobl rhwng 40-49 oed

Pobl rhwng 30-39 oed

Pobl rhwng 18-29 oed

Rydym yn ceisio cynnig apwyntiad i bawb dros 18 oed i gael brechlyn Atgyfnerthu cyn diwedd Rhagfyr 2021.

BYDDWCH YN AMYNEDDGAR, BYDDWN YN CYSYLLTU Â CHI.

Blwyddyn o'r Rhaglen Frechu Covid-19



Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers dechrau ein Rhaglen Brechu Torfol uchelgeisiol a dechrau dosbarthu ein brechiadau Covid-19 cyntaf i'n poblogaeth leol, gan gymryd ein camau cyntaf i ddiogelu Gwent rhag y Coronafeirws.

Mae'r 21 mis diwethaf wedi achosi mwy o heriau nag erioed i'n Bwrdd Iechyd, a gofynnwyd i ni nawr ymestyn ein rhaglen frechu Covid-19 ymhellach, yn ogystal â'i darparu yn gynt nag o'r blaen.

Mae ein staff yn gweithio'n hirach ac yn galetach i ddiogelu cymaint o drigolion â phosibl rhag y feirws hwn, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymrwymiad a'u hymroddiad.

Ni fyddai ein Rhaglen Brechu Torfol wedi bod yn gymaint o lwyddiant heb gefnogaeth a dealltwriaeth ein trigolion. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi derbyn y cynnig i gael brechiad Covid-19, a rhoi eu hyder ynom ni i'w diogelu nhw, a'u hanwyliaid.

Diogelwch y Brechlyn

Mae gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) gyfrifoldeb statudol o ran rhoi caniatâd i ddefnyddio a monitro diogelwch meddyginiaethau yn cynnwys brechlynnau. Mae'r MHRA wedi cymeradwyo brechlynnau Pfizer BioNTech, Oxford Astra Zeneca a Moderna COVID-19 i'w defnyddio yn y DU fel brechlynnau COVID-19 diogel ac effeithiol.

Er mwyn i frechlyn gyrraedd y cyhoedd, bydd yn rhaid iddo weithio a bod yn ddiogel.

Mae camsyniad yn bodoli fod ymchwil i frechlynnau yn cymryd amser hir, ond nid yr ymchwil yn unig sy'n llafurus - mae'r camau ymlaen llaw yn bwysig, megis cael cyllid a chymeradwyaeth. Y cyllid sydd wedi cyflymu datblygiad brechlyn COVID-19.

Gwnaeth Llywodraeth y DU ariannu treialau clinigol i ddatblygu brechlyn COVID-19, er mwyn gallu ei ddosbarthu'n gyflym.

Mae'r gwaith hwn hefyd wedi cael ei gefnogi gan dechnoleg newydd, yn cynnwys y gallu i weithgynhyrchu brechlynnau'n gyflym. Cyflenwi - dechreuwyd cynhyrchu'r brechlyn er mwyn gallu ei ddosbarthu cyn gynted â phosibl ar ôl cadarnhau ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/>

BRECHU'R DOS CYNTAF – GADAEL NEB AR ÔL

Gall unrhyw un sy'n 12 oed neu'n hŷn sydd heb dderbyn ei ddos cyntaf o'r brechiad, alw heibio un o'n clinigau brechu torfol i gael ei ddos CYNTAF o'r brechiad.

Ar gyfer lleoliadau ac oriau agor ein clinigau, ewch i <https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/our-vaccination-centres/> neu ffoniwch 0300 303 1373 i drefnu'ch apwyntiad.

NHS Covid Pass Information available at
<https://gov.wales/get-your-nhs-covid-pass#section-70608>
Or by calling 0300 303 5667

For further information on the Covid-19 Vaccination please visit:
<https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/>

Public Health Wales Vaccination information:
<https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/>



Efallai y bydd rhaid ciwio yn ein Canolfannau Brechu Torfol oherwydd y nifer fawr o bobl sy'n dod drwy ein drysau - ymddiheurwn am unrhyw oedi, ond byddwch yn amyneddgar a gwisgwch ar gyfer tywydd oer rhag ofn bod gofyn i chi ddisgwyl y tu allan.